# Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog.

## Cofnodion cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, GAERWEN ar Nos Fawrth, 4ydd MEHEFIN 2019.

**1 Presennol: Cynghorwraig Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd)**
**Cynghorwyr Miss Linda Jones, Mrs Carol McGregor,**
**Ms Rhian Roberts, Mr Raymond Evans,**
**Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones,**
**Mr John Pritchard, Mr Einion P Williams a**
**Mr J Alun Foulkes (Clerc).**
**Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts & Mr Eric Jones.**

**2 Ymddiheuriadau:**

**Cynghorwr Mr Ian Owen.**

**3 CROESO & DIOLCHIADAU.**

3.1 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
3.2 Llongyfarchwyd Cyng Raymond Evans ar ddathlu penblwydd arbennig.
3.3 Nodwyd fod Mrs Myra Evans, cyn Glerc wedi derbyn llawdriniaeth ac anfon cerdyn yn dymuno gwellhad buan iddi.

**4 DATGAN DIDDORDEB.**

4.1 Datganodd Cynghorydd Cynrig Jones diddordeb personol a oedd yn rhagfarnu yn eitem 6.1 gan mai ei ferch, Mrs Ffion Mon Bullock oedd yr ymgeisydd am y sedd gwag ac fe gadawodd yr ystafell pan drafodwyd yr eitem.

4.2 Datganodd Cynghorydd Raymond Evans diddordeb personol nid oedd yn rhagfarnu mewn eitem 7.12 am nad oedd drafodaeth llawn wedi ei gynnal hyd yma ac fe cymerodd ran yn yr eitem.

4.3 Roedd y Clerc am wneud ymholiadau gyda Adran Gyfreithiol ynghylch y ddau Cynghorydd Sirol ar gyfer eitemau Ceisiadau Cynllunio at ddibenion egluro.

**5 CYWIRO & DERBYN COFNODION.**

5.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar y 23ain Ebrill 2019 yn gywir. (DH/EPW).

.....

**6 <u>MATERION YN CODI O'R COFNODION</u>.**

7.1 **Sedd Gwag** – cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi derbyn llythyr oddiwrth Mrs Ffion Mon Bullock yn dangos diddordeb o lenwi y sedd gwag. Cynnig (DH) Eilio (RR) o dderbyn y llythyr a cyfethol yn unfrydol.

7.2 **Llwybr Rhif 33** – roedd y Clerc am siarad gyda Mr Arwel Evans o'r Cyngor Sir a gofyn iddo ymweld a'r safle pan fydd yn gyfleus.

7.3 **Giat Cae Chwarae Mawr** – roedd y Clerc am anfon llythyr i atgoffa'r Adran Briffyrdd yn gofyn iddynt ystyried gosod llinellau gwyn a'r Lon Groes tu allan mynediad y Cae Chwarae.

7.4 **Lon Llangaffo** – roedd y Clerc am atgoffa a dwyn sylw'r Adran Briffyrdd fod angen datrys gordyfiant ar bolyn/ffens sydd wedi siglo dan bwysau eiddew ochr isa Capel Berea ac ail-lleoli arwydd 40mya tuag at cyfeiriad Llangaffo.

7.5 **Postyn Gol & Graffiti** – cadarnhawyd fod y gwaith yma wedi ei wneud.

7.6 **Lles Cae Chwarae (Clwb Pel Droed)** – y Clerc am gysylltu gyda'r Adran Eiddo yn gofyn iddynt am ymateb swyddogol o'r sefyllfa diweddaraf.

7.7 **Cynnal & Cadw Gwyneb Safle Maes Chwarae – disgwyl am ail bris cyn symud ymlaen.**

7.8 **Arolygiad Misol** – gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ar gyfer darparu rhestr er mwyn cynnal arolygiad misol o holl offerynau y caeau chwarae er budd lles diogelwch ac yswiriant. Dywedodd Cyng Cynrig Jones y bydd yn fodlon ymgymeryd y gwaith o arolygu'r offer. Yn y cyfamser roedd angen edrych ar giat mynedfa yr offer yn dilyn cwyn a gofyn i Gwmni G L Jones edrych arno. Nodwyd y bydd Athrawon yr Ysgol Gynradd yn cael gair gyda'r disgyblion ynglyn a peidio gadael sbwriel yn y Caeau Chwarae.

7.9 **Adroddiad Gor Yrru Stryd y Capel** – y Clerc am ofyn i'r Cyngor Sir os oedd posib trefnu astudiaeth newydd o'r safle yn dilyn cwyn fod mwy o gor-yrru ar hyd y lon.

7.10 **Cofrestr Asedau y Cyngor** – roedd y rhestr wedi ei drosglwyddo i law y Clerc ar gyfer yr Archwiliad Blynyddol

7.11 **Stad Rhos Wen – Arwydd ' No Through Road' -** angen gofyn i'r Cyngor Sir ystyried arwydd mwy

.....

7.12 **Wal Cae Chwarae Mawr** – penderfynwyd gofyn a trefnu i Mr John Evans ymweld ar safle a paratoi dyfnbris.

7.13 **Cysgodfan gyferbyn y Gofeb –** derbyniwyd adroddiad oddiwrth Cyng Linda Jones fod graffiti anweddus wedi paentio ar y cysgodfan gyferbyn y Gofeb a gofyn i'r Clerc wneud trefniadau i ddileu hwn cyn gynted a phosib.

7.14 **CAIS CYNLLUNIO MAES PARCIO CYFFORDD 7 (A55) GAERWEN (FPL/2018/30) –** Nodwyd a cadarnhaodd y Cynghorwyr Sirol fod y Cyngor Sir wedi gwneud cais grant annibynnol drwy'r Cynulliad ar gyfer y cynllun yma.

**8 <u>MATERION CYLLID</u>**.

8.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 28/05/2019 – cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor hyd at ddiwedd Mis Mai 2019 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y fantolen yn unfrydol.

**9 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.**

9.1 **Cais Cynllunio Llawn Hen Safle Little Chef, Gaerwen (FPL/2019/124)** – DIM SYLWADAU AR Y CYNLLUN DATBLYGU GAN EI FOD YN GWELLA'R SAFLE. GAN FOD Y CYNLLUN YN DANGOS FOD MAES PARCIO AR GYFER Y CYNLLUN, NODWYD Y DYLAI AMODAU YN GWRTHOD I UNRHYW BERCHEN BARCIO CERBYDAU TU ALLAN I'R TAI AR YR A5 A GALL ARWAIN AC YCHWANEGU AT ANHAWSTERAU TRAFFIG SYDD EISOES YN BODOLI TRWY'R PENTREF**.**

**9.2 Cais Cynnlunio Llawn Llathdy Welsh Country Foods (FPL/2019/128)** – DIM SYLWADAU AR Y CYNLLUN DATBLYGU OND DANGOSWYD PRYDER Y GALL ARWAIN AT CYNNYDD TRAFFIG AR HYD LON STRYD Y CAPEL SYDD EISOES GAN FOD SEILWAITH Y FFORDD YMA O SAFON ISEL AC YN BERYGLUS AR GYFER CERBYDAU TRWM AC I NODI FOD SAWL CWYN PARCIO A GOR-YRRU WEDI EI WNEUD YN BAROD AC FELLY GOFYN AM AMODAU Y DYLAI CERBYDAU TRWM DDEFNYDDIO Y BRIF FYNEDFA I'R STAD DIWYDDIANOL AC NID STRYD Y CAPEL A HEIBIO'R YSGOL/GANOLFAN.

**.....**

**9.3 Cais Cynnlunio Addasu & Ehangu – Cefn Gwynt, Lon Groes – HHP/2019/130 –** DIM GWRTHWYNEBIAD NA SYLWADAU.

**9.4 Cais Cynllunio Codi Uned Diwydiannol ar dir Uned 10B – Uned Diwydiannol M&G, Gaerwen – FPL/2019/82 –** YN DILYN GWYBODAETH DIWYGIEDIG – NID OEDD UNRHYW SYLWADAU NA GWRTHWYNEBIAD

**10 MATERION LLWYBRAU**

10.1 Nodwyd fod angen sylw i'r sbwriel ar hyd y llwybr rhwng Gaerwen Uchaf a Maes Merddyn.

**10.2** Nodwyd fod angen sylw i'r giat mochyn ger mynedfa Ffynnon Boston gyferbyn Mornest ym Mhentre Berw.

**11 MATERION PRIFFYRDD.**

**11.1 Chwarel Bwlch Gwyn -** nodwyd cwyn nad oedd cerbydau trwm a oedd yn defnyddio'r chwarel yn cadw at yr amodau gwreiddiol ac I rhestru'r eitem ar rhaglen cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor.

**11.2 Safle Gwerthu Ceir –** nodwyd fod y goliadau yn rhy llachar ac fod angen dwyn hyn i sylw yr Adran Briffyrdd.

**11.3 Gorchymyn Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro (Y Ffordd o'r B5420 ger Pont Ceint heibio Capel Pensarn i'r A5 yng Nghaerwen) –** nodwyd y rhybudd swyddogol.

**12 GOHEBIAETH.**

**12.1 Nodwyd llythyr o ddiolch oddiwrth Pwyllgor Eisteddfod Mon 2020 Bro Esceifiog am cael defnyddio'r Cae Chwarae a'r Ganolfan ar gyfer yr Wyl Cyhoeddi.**

**12.2 Nodwyd llythyr wedi ei dderbyn yn cwyno am enw stad newydd o dai ym Mhentre Berw sef 'the Herb Garden'. Nid oedd hyn yn hollol gywir gan fod enw 'Lon Capeullo' wedi ei dynode gan y Cyngor Cymuned.**

**.....**

**13 ETHOL CADEIRYDD NEWYDD Y CYNGOR 2019-2020.**

**13.1 Etholwyd Cynghorwraig Linda Jones yn unfrydol (EPW/RE)**

**14 ETHOL IS-CADEIRYDD NEWYDD Y CYNGOR 2019-2020.**

**14.1 Etholwyd Cynghorydd Cynrig Jones yn unfrydol (DH/RR)**

**15. DERBYN CYFRIFON Y CYNGOR 2018-2019.**

**15.1 Ar ol eglurhad llawn gan y Clerc, derbyniwyd y cyfrifon yn unfrydol gyda diolch (RE/JP)**

**16 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF -25ain MEHEFIN 2019.**

16.1 Clowyd y cyfarfod am 9:00yh.

**Arwyddo.....CADEIRYDD.....Dyddiad.**